Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw am Ddatblygiad ym maes Amaethyddiaeth neu Goedwigaeth - adeilad arfaethedig
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, rhannau 6/7

Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw am Ddatblygiad ym maes Amaethyddiaeth neu Goedwigaeth - ffordd arfaethedig
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, rhannau 6/7

Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw am Ddatblygiad ym maes Amaethyddiaeth neu Goedwigaeth - cloddio/gwastraff o fferm
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, rhannau 6/7

Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw am Ddatblygiad ym maes Amaethyddiaeth neu Goedwigaeth - tanc pysgod arfaethedig (cawell)
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 Atodlen 2, rhannau 6/7

Dylai'r ffurflen Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw hon gael ei defnyddio ar gyfer cynigion i wneud gwaith datblygu penodol ym maes amaethyddiaeth neu goedwigaeth a ganiateir o dan Rannau 6 a 7 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995.

Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol 28 diwrnod i roi gwybod i'r ymgeisydd am ei benderfyniad o ran pa un a oes angen gwneud cais llawn neu roi gwybod i'r ymgeisydd am ei benderfyniad i roi cymeradwyaeth neu i wrthod cymeradwyaeth.

Ni ddylai unrhyw waith ddechrau cyn i gais gael ei wneud.

Dylai ffurflen Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw gael ei chyflwyno ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiadau:

- o ran unedau amaethyddol sy'n bum hectar neu fwy:
    i. Codi adeilad, ei ymestyn yn sylweddol neu ei newid yn sylweddol
    ii. Creu neu newid ffordd breifat
    iii. Gwneud gwaith cloddio a gwaredu gwastraff penodol
    iv. Gosod neu greu tanc neu gawell at ddiben ffermio pysgod mewn unrhyw ddyfroedd
- ar dir coedwigaeth o ran (i) a (ii) uchod
- ffordd arfaethedig
- cynnig i gloddio/gwaredu gwastraff
- codi tanc pysgod

Rhaid i unrhyw un sy'n cyflwyno cynnig i gyflawni'r fath ddatblygiad wneud cais i'r awdurdod cynllunio ymlaen llaw am benderfyniad ynghylch p'un a oes angen i'r awdurdod gymeradwyo manylion penodol ymlaen llaw.

Cyngor: Ni fydd ffurflen Cais am Hysbysiad Ymlaen Llaw yn addas os oes angen gwneud cais cynllunio penodol, er enghraifft, adeilad fferm arfaethedig neu waith arall. Yn yr achos hwn, rhaid i ffurflen cais cynllunio ar wahân gael ei llenwi.

Ymhlith yr enghreifftiau lle y bydd angen cael caniatâd cynllunio mae:

- datblygiad nad oes ei angen yn rhesymol at ddibenion amaethyddiaeth/coedwigaeth ar y daliad (nid yw cadw neu fagu ceffylau, oni wneir hynny i weithio'r tir, yn gyfystyr â diben amaethyddol)
- datblygiad ar dir nas defnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas â busnes amaethyddol, er enghraifft, ffermio fel hobi
- datblygiad nas cynlluniwyd at ddibenion amaethyddol, er enghraifft, cerbydau rheilffyrdd neu gynwysyddion lorïau
- datblygiad ar ddaliad amaethyddol sy'n llai na 0.4 hectar
- datblygiad sydd o fewn 25 metr i ran galed cefnffordd neu ffordd ddosbarthiadol
- datblygiad ar ddarnau o dir sydd ar wahân ac sy'n llai nag: un hectar ar unedau sy'n bum hectar neu'n fwy; neu 0.4 hectar ar unedau sy'n llai na phum hectar
- adeiladau amaethyddol sy'n fwy na 465 metr sgwâr o arwynebedd llawr (wedi'i gyfrifo i gynnwys pob datblygiad arall sydd o fewn 90 metr i'r safle a gyflawnwyd o fewn y ddwy flynedd flaenorol)
- adeiladau neu waith cloddio at ddibenion cadw da byw neu slyri o fewn 400 metr i adeilad a ddiogelir (y rhan fwyaf o adeiladau nad ydynt yn rhai amaethyddol)
- datblygiad amaethyddol sydd dros 12 metr o uchder
- gwaith cloddio neu weithrediadau peirianneg sy'n gysylltiedig â ffermio pysgod

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'ch awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - 'cyngor cyn gwneud cais' y'i gelwir. Fel arfer, bydd gan eich awdurdod lleol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.